



GWERS 4 - ADNABOD RHAI O GYMERIADAU DAN Y WENALLT

Tasg 1 – Adnabod nodweddion personoliaeth

Yn ystod y wers byddwch wedi cael blas ar berfformio golygfa allan o'r ddrama, gobeithio. Llenwch y grid canlynol trwy gysylltu'r gair cywir â phob cymeriad. Esboniwch beth oedd eich rheswm am ddewis y gair bob tro.

Cymeriad	Personoliaeth?	TYSTIOLAETH? Dewiswch ddyfyniad neu esboniwch
Lili Bwt	ar frys	
Mrs Beynon	yn fflyrtio	
Mr Puw	yn ymlaciedig	
Mrs Puw	yn hwyr	
Miss Price	yn gryf	
Dai Bara	yn gyfeillgar	
Mrs Dai Bara Gwyn	yn foslyd	
Mrs Dai Bara Brown	yn dwt-neis	
Syr Wili-Watsh	yn casáu ei wraig	
Poli Gardis	yn ffansio'i hun	
P.C.Rhys	yn ffyslyd	



Tasg 2 – Gweithio gyda’ch gilydd yn greadigol i wneud Bwrdd Cymeriad

Mewn grwpiau, gwnewch fwrdd cymeriad sy’n cyflwyno o leiaf **chwech** o’r cymeriadau’n gryno. Rhannwch y gwaith rhyngoch yn deg. Pa fath o bobl yw’r cymeriadau hyn? Sut dylen nhw edrych, symud, ymddwyn? Dewiswch ddyfyniad allweddol i bob un gan esbonio beth mae’r dyfyniad yn ei ddangos amdany’n nhw. Pwy fyddai’r actor delfrydol ar gyfer pob cymeriad? Ychwanegwch luniau, syniadau am wisgoedd a phropiau.

TASG YMESTYNNOL – YSGRIFENNU PERSONOL

Cymerwch ddyrnaid o gymeriadau eich hun (o’ch dychymyg neu’n bobl sy’n gyfarwydd i chi) ac ysgrifennwch sgrïpt fer sy’n eu cyflwyno wrth iddyn nhw ddeffro yn eu tai ar ddechrau’r dydd. Dychmygwch eich bod chi, fel Capten Cat, yn eistedd ac yn gwranddo wrth glywed stryd yn deffro.

Sylwch sut mae Dylan Thomas yn rhoi rhyw gipolwg bach sydyn inni ar eu personoliaethau – heb lunio stori na chysylltu’r cymeriadau mewn ffyrdd cymhleth. Mae’n eu cyflwyno inni’n syml trwy eu geiriau a’u dull o siarad. Cymerwch ofal gyda’ch dewis o atalnodi, a cheisiwch ddal y ffordd mae pobl wahanol yn siarad ac yn ymwneud â’i gilydd.